

28. Darn o **Dirgel Ddyn** gan Mihangel Morgan

... Fe lwyddais i gael tipyn o waith yn y ddinas y flwyddyn honno yn dysgu lenyddiaeth Gymraeg i oedolion, fel y dywedais. Er gwaethaf fy ngradd ddilewyrch - ym marn y cyflogwyr, - er gwaethaf f'awdlau aflwyddiannus - ym marn y beirniaid, fe gyflwynwyd lenyddiaeth Cymru i'm gofal i'w throsglwyddo i'm disgyblion a disgyblion fy nisgyblion neu i'w plant ac i blant eu plant. Ac, wrth gwrs, roedd lenyddiaeth fy mamiaith yn fy nghynnal; y fath deimlad braf.

Ond pan ddihunais y bore hwnnw ac edrych ar y stafell o un cwr i'r llall, gwelais nad oedd y gwaith, er mor glodwiw ac anrhydeddus ydoedd, yn ddigon i gynnal hunan-barch. Doedd cyflwr fy myw ddim wedi gwella llawer ers imi fod ar y dôl. Roeddwn i'n dal i fyw yn yr un stafell fechan, yng ngŵydd yr un llenni llwydion, yr un dillad gwely melyn, yr un budreddi, yr un drewdod. Ac, ar ben y cyfan, roedd gen i ofidiau newydd: y baich o sicrhau bod digon o bobl yn ymuno â'r dosbarthiadau, y gofid o orfod paratoi gwaith ar eu cyfer. Doedd gen i mo'r gofidiau hynny ar y dôl, dim ond y budreddi a'r diffyg hunan-barch.

Roedd hi'n ddydd Mawrth eisoes a dosbarth i baratoi ar ei gyfer y noson honno. Trydydd dosbarth y tymor newydd hefyd. Y rheol y pryd hynny oedd bod rhaid cael deg aelod cofrestredig o leiaf wedi tanysgrifio i ddilyn y cwrs erbyn y drydedd wythnos; fel arall, byddai'n rhaid cau'r dosbarth. Roeddwn i'n dibynnu ar yr arian yr oeddwn i'n eu cael am y dosbarth hwnnw, felly doeddwn i ddim yn awyddus i'w weld yn dirwyn i ben. Felly, penderfynais y cymerwn un o'r cardiau ymaelodi a'i lenwi. Roedd yna bentwr ohonyn nhw ar y llawr ymhlith fy nodiadau. Heb godi o'r gwely, estynnais am un ac am ysgrifbin ac yna dechrau ar y dasg o'i lenwi. Bu'n rhaid imi ddyfeisio cymeriad. Ni allwn feddwl am enw - does gen i ddim dychymyg, dyna pam y byddwn i'n barddoni mewn cynghanedd yn hytrach nag ysgrifennu rhyddiaith - felly, penderfynais ar yr enw Ann Griffiths gan fy mod yn bwriadu cynnal dosbarth ar yr emynyddes y tymor hwnnw. Dyfeisiais gyfeiriad ffug. Yna rhoddais y fenyw rithiol hon yn adran yr henoed. Fy mwriad oedd mynd â'r cerdyn a'r arian i'r swyddfa y noson honno. Fe lyncid y celwydd ac fe achubid y dosbarth o ganlyniad. Roedd yr ystryw yn un a dalai, felly - ddim ar ei chanfed, hwyrach, ond fe dalai.

dilewyrch - lacklustre

clodwiw - praiseworthy

yng ngŵydd - in the presence of...

emynydd - hymn-writer

ystryw - ruse

Gwybodaeth

Daw'r darn hwn o ddechrau'r nofel *Dirgel Ddyn* gan Mihangel Morgan. Cafodd y nofel ei hysgrifennu yn y person cyntaf am helyntion tiwtor dosbarth nos. Cafodd ei disgrifio fel nofel ddinesig, gyda'i 'blas cyfoes Ewropeaidd a'r panorama o ffilmiau sy'n gefndir lliwgar iddi.' Daw Mihangel Morgan o Aberdâr yn wreiddiol. Dysgodd y Gymraeg fel ail iaith ac erbyn hyn mae'n ddarlithydd yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'n adrodd ei straeon mewn dull dychanol, doniol, ôl-fodern.

